# Datganiad o Fwriad

**Defnyddio data iechyd a gofal yn well er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol a gwasanaethau effeithlon**

Mae data cynhwysfawr o safon uchel yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal diogel ac effeithiol. Mae GIG Cymru a gwasanaethau cymdeithasol yn casglu llawer iawn o ddata bob dydd, gan gynnwys data ar unigolion a data yn ymwneud â gweinyddu a rheoli'r system iechyd a gofal. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod systemau cadarn ar waith i reoli data'n ddiogel ac i ddiogelu cyfrinachedd, yn ogystal â sicrhau bod data'n gallu cael ei rannu a'i ddefnyddio'n briodol er budd iechyd a llesiant yng Nghymru.

Fel a nodwyd gennym yn y strategaeth *Iechyd a Gofal Gwybodus*, rydym yn dymuno sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal yn gallu cael gafael ar yr adnoddau digidol a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gydgysylltu a darparu gofal, a bod unigolion yn cael eu grymuso i wneud cyfraniad gweithredol at benderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd a'u llesiant eu hunain trwy fynediad at wybodaeth am eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Mae *Symud Cymru Ymlaen*, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2021, yn canolbwyntio ar roi iechyd wrth galon popeth rydym yn ei wneud ac mae'n cynnwys ein huchelgais i ddefnyddio technolegau digidol i helpu i roi diagnosis o salwch yn gyflymach. Mae *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol, yn egluro mai dim ond drwy gydweithio â chynrychiolwyr o'r system iechyd a gofal, ac o'r tu allan iddi, y gallwn ni gyflawni ein hamcanion.

Drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael yn well, gallwn wella'r broses benderfynu, cynllunio ar gyfer newid a sbarduno gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad. Y tu hwnt i gefnogi gofal unigolion, mae rhannu a defnyddio data yn hollbwysig fel sail i greu gwybodaeth a dealltwriaeth i helpu'r rhai sy'n comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal i ddysgu o'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, i ddeall beth sy'n digwydd heddiw ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae rhannu data yn effeithiol yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i fonitro a gwella ansawdd gofal, ac mae'n gallu cefnogi datblygiad a gwerthusiad adnoddau a thriniaethau i wella canlyniadau iechyd. Mae mynediad priodol at ddata yn gallu helpu i lywio rhaglenni iechyd y cyhoedd, rheoli gweithrediad gwasanaethau a modelu'r galw i'r dyfodol. Mae'n gallu arwain y gwaith o gynllunio ac integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, cefnogi ymchwil ac arloesedd sy'n cynhyrchu tystiolaeth a syniadau i lywio polisi ac ymarfer a gwella'r ffordd mae unigolion yn

cymryd rhan mewn gwasanaethau iechyd a gofal a'u profiad o'r gwasanaethau hynny.

Mae data eisoes yn cael ei rannu a'i ddefnyddio ar lefelau cenedlaethol a lleol i gefnogi pob math o ddibenion, gan gynnwys gwella ansawdd, archwilio, cynllunio ac adrodd ar berfformiad. Mae partneriaethau rhwng sefydliadau'r GIG a'r byd academaidd yn dangos sut y gall defnyddio mwy o ddata helpu i gynhyrchu gwybodaeth i wella gwasanaethau iechyd a gofal. Er enghraifft, mae Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddefnyddio technegau modelu mathemategol i geisio datrys problemau gofal iechyd, ac mae'r seilwaith Cysylltu Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe yn darparu ffordd ddiogel o ddefnyddio data i gefnogi ymchwil.

Fodd bynnag, gallwn ni wneud mwy.. Mae data yn adnodd hollbwysig ar gyfer galluogi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol, ac mae rhannu a defnyddio'r data hwnnw yn cael ei gydnabod fel ffordd allweddol o ddarparu gofal iechyd darbodus. Mae'r datblygiadau cyflym mewn technoleg a dulliau trafod data yn parhau i ehangu'r ffyrdd y gall gwybodaeth a deallusrwydd gael eu hechdynnu o ddata i helpu i weddnewid gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r gwaith o fabwysiadu ymagweddau newydd at ofal iechyd, megis dadansoddeg ragfynegol, 'Data Mawr' a meddygaeth fanwl gan ddefnyddio genomeg, eisoes yn cwestiynu'r ffordd rydym yn rheoli a rhannu data.

Ein bwriad yw sicrhau y gall y system iechyd a gofal yng Nghymru fanteisio'n llawn ar y gwerth mae data'n ei gynnig. Mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli data yn GIG Cymru ac mewn gwasanaethau cymdeithasol gael eu cefnogi i rannu a defnyddio data'n briodol heb danseilio preifatrwydd unigolion. Byddwn yn gweithio i ddileu rhwystrau diangen ac egluro trefniadau llywodraethu ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru i sicrhau y gall data gael ei rannu a'i ddefnyddio, heb gyfaddawdu ar gyfrinachedd, a byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi'r ddealltwriaeth o fanteision rhannu data a datblygu deialog barhaus i greu a chynnal ymddiriedaeth yn y defnydd o ddata.

I fanteisio'n llawn ar y data sydd gennym, mae angen i ni sicrhau bod gennym ni'r gallu i'w gyflwyno ar draws y system iechyd a gofal yng Nghymru. Rydym yn bwriadu rhoi atebion digidol ar waith i alluogi'r data i fod ar gael fel adnodd sy'n hygyrch mewn ffyrdd diogel i'r rhai sydd ei angen, pan maent ei angen, ac i hwyluso dadansoddiad, ymchwil ac arloesedd cydweithredol y data.

Mae gan ddata y potensial i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd a fydd yn ein helpu i wella ein system iechyd a gofal, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i wireddu gwerth llawn y data sydd gennym. Byddwn yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen arnom o fewn y system iechyd a gofal, a byddwn yn ei gwneud hi'n bosibl i eraill, gan gynnwys partneriaid mewn prifysgolion ac mewn diwydiant, weithio gyda ni i ystyried syniadau newydd a datblygu ffyrdd gwell o weithio.

Yn olaf, mae ein hymdrechion i ddefnyddio data'n well yn dibynnu ar gasglu'r data iawn a sicrhau ei fod o safon uchel. Byddwn yn sicrhau bod data'n gywir, yn gyson ac yn gynhwysfawr a bod y rhai sy'n gweithio yn ein system iechyd a gofal yn deall

eu cyfrifoldeb ac yn cael cymorth i gasglu a rheoli data'n effeithiol ac yn unol â safonau ac arferion perthnasol.

I gyflawni'r bwriadon hyn, rydym wedi nodi pedwar maes gweithgarwch allweddol a all ein helpu i wella'r ffyrdd y gall data gael ei ddefnyddio at ddibenion y tu hwnt i ofal unigolion i helpu'r rhai sy'n rheoli'r system iechyd a gofal yng Nghymru i gynllunio, arloesi a gwerthuso'r ffyrdd gorau o ddarparu gwasanaethau a gwella gofal.

Rydym wedi amlinellu rhai egwyddorion a all helpu i lywio'r gwaith hwn (atodiad 1).

## Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

1. **Datblygu fframwaith mwy tryloyw ar gyfer sut rydym yn rheoli, defnyddio a rhannu data iechyd a gofal.**

Mae'r ffordd mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i rhannu yn fater cymhleth a sensitif. Mae GIG Cymru ac Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo i ddiogelwch data a pharchu preifatrwydd unigolion, gyda systemau a phrosesau cadarn ar waith i sicrhau cywirdeb data.

Mae ymatebion diweddar i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru – Ein Hiechyd, Ein Gwasanaethau Iechyd – yn awgrymu bod angen i ni fod yn gliriach ynglŷn â sut rydym yn rheoli, defnyddio a rhannu data. Mae angen i wasanaethau iechyd a gofal esbonio sut y gall data gael ei rannu rhwng sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol, a bod â chyfrifoldeb i wneud mwy i hysbysu unigolion am sut mae data'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gofal a swyddogaethau craidd eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae angen i ni hefyd fod yn glir ynglŷn â gwerth rhannu data gydag eraill, a sicrhau bod systemau ar waith i reoli hyn. Mae'n hollbwysig bod pawb sy'n rhan o'r broses, a'r cyhoedd a chleifion yn enwedig, yn deall y ffordd rydym yn defnyddio a rhannu data a sut rydym yn rheoli cydsyniad ac yn diogelu preifatrwydd.

Er enghraifft, mae ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu elfen bwysig i gefnogi a datblygu gofal a gwasanaethau o safon uchel ac, yn aml, fe'i cyflawnir mewn partneriaeth â phrifysgolion, elusennau a chwmnïau fferyllol. Mae yna reolau clir ar gyfer cydsyniad wrth ddefnyddio data lle mae modd adnabod y person ar gyfer ymchwil, ac os yw data lle nad oes modd adnabod y person yn cael ei ddefnyddio, rydym yn gallu cysylltu a rhannu data gan gadw rheolaeth a sicrhau nad oes modd i'r person gael ei adnabod.

Rydym am barhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn rhannu data gyda phartneriaid, ar gyfer ymchwil gymhwysol a darparu gwasanaethau, a byddwn yn dod o hyd i ffyrdd i wneud hynny sy'n diogelu cyfrinachedd ac yn sicrhau bod yna fudd clir i'r cyhoedd.

2. **Rhoi'r atebion digidol ar waith i sicrhau bod gwybodaeth iechyd a gofal ar gael fel adnodd i'w ddefnyddio ar lefelau cenedlaethol a lleol, trwy atgyfnerthu ac adeiladu ar ddulliau rheoli a llifoedd data presennol.**

Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau tameidiog ar gyfer trafod a rheoli data a gesglir yn rheolaidd yn cyfyngu ar allu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i fanteisio'n llawn ar werth y data hwn. Mae angen dull mwy cydgysylltiedig, sy'n symud i ffwrdd o seilos o ddata, a chefnogi llif data gwell y gellir ei gysylltu a'i wneud ar gael fel 'adnodd data cenedlaethol' i gefnogi defnyddiau cenedlaethol a lleol.

Mae defnyddio dull 'unwaith i Gymru' yn golygu bod data ar gael fel adnodd i'w ddefnyddio ar draws iechyd a gofal, gan alluogi sawl sefydliad i fanteisio ar y data hwn i wneud gwaith dadansoddi a datblygu deallusrwydd i gefnogi pob math o ddibenion. Mae hefyd yn gallu cefnogi dull cyffredin i ystyried sut y gall ffynonellau data newydd, gan gynnwys data genomig a gwybodaeth a adroddwyd gan y claf, gael eu hymgorffori ar gyfer eu prosesu a'u defnyddio'n briodol.

I gyflawni hyn, bydd angen i sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid arbenigol eraill, er enghraifft, y byd academaidd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), i ddatblygu dull systematig o reoli a phrosesu data a gesglir yn rheolaidd, y trefniadau technegol a llywodraethu i ddiogelu cyfrinachedd a'r rheolau ar gyfer mynediad.

Bydd ymgynghori ac ymgysylltu'n gynnar â sefydliadau sydd â chyfrifoldebau fel rheolwyr data ar gyfer data lefel bersonol, gan gynnwys meddygon teulu, yn hollbwysig er mwyn deall ac ymateb i bryderon a disgwyliadau ynghylch y ddarpariaeth a'r defnydd o ddata fel rhan o 'adnodd data cenedlaethol', ac esbonio'r manteision a gynigir.

### 3. Datblygu'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu gwerth llawn y data sydd gennym

Mae system iechyd a gofal a sbardunir gan wybodaeth angen y bobl, y sgiliau a'r adnoddau iawn i echdynnu deallusrwydd a gwybodaeth o'r data sydd ar gael. Mae angen i bwysigrwydd deallusrwydd a dadansoddeg i'r gwaith o reoli a gweithredu'r system iechyd a gofal gael ei adlewyrchu yn niwylliant y sefydliadau er mwyn cydnabod y sgiliau a'r ymdrech sydd eu hangen, a sut y gall ategu a darparu tystiolaeth i gefnogi'r broses benderfynu.

Mae dulliau modelu systemau'n gallu helpu penderfynwyr gofal iechyd i gynllunio neu ailddylunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion cleifion o safbwyntiau strategol a gweithredol. Er enghraifft, gall dulliau o'r fath: helpu i ragfynegi'r effaith y gallai newid demograffig neu ymarfer clinigol newydd ei chael ar wasanaeth er mwyn llywio'r gwaith o ailddylunio gwasanaethau sylfaenol, ysbyty a chymuned mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ledled Cymru; helpu i benderfynu ble i leoli ambiwlansiau er mwyn gwella cyfraddau goroesi; gwella gofal iechyd wedi'i bersonoli yn seiliedig ar ganlyniadau cleifion tebyg; a helpu i lunio amserlenni staff ac ystafelloedd trin er mwyn osgoi canslo triniaethau cleifion yn ddiangen.

Mae angen i ni ddatblygu ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ddadansoddeg data er mwyn blaenoriaethu defnyddio adnoddau presennol a darparu arweinyddiaeth i sicrhau bod y sgiliau a'r arbenigedd yn cael eu datblygu mewn ffordd strategol a

chydlynol. Dylai hyn adeiladu ar enghreifftiau o'r rhai sy'n cyfrannu at y data a'r ddadansoddeg o fewn y system iechyd a gofal yn dod ynghyd i rannu arfer gorau trwy grwpiau a fforymau presennol. Yn ogystal, bydd gweithio gyda'r byd academaidd ac eraill megis yr ONS yn hollbwysig o ran datblygu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a defnyddwyr eraill.

Mae angen asesiad manwl o anghenion i ddeall sut y gall iechyd a gofal yng Nghymru ffurfweddu a datblygu ei adnoddau dadansoddol er mwyn defnyddio data'n well a sbarduno diwylliant sy'n gwerthfawrogi dadansoddeg a deallusrwydd. Dylai'r ymarfer hwn archwilio a gwneud argymhellion ar: y gallu dadansoddi presennol; yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael; a'r anghenion i'r dyfodol a modelau posibl darpariaeth deallusrwydd a dadansoddeg effeithiol.

**4. Gwella'r dulliau casglu data ac ansawdd y data**

Mae gwerth gwybodaeth a deallusrwydd sy'n deillio o ddata a gesglir yn rheolaidd yn dibynnu ar ansawdd y data sydd ar gael sydd, yn ei dro, yn dibynnu ar allu systemau i gasglu'r data priodol a diwallu anghenion defnyddwyr.

Yn hanesyddol, mae gwybodaeth am ofal iechyd wedi canolbwyntio ar ochr weinyddol y gwaith o reoli gwasanaethau clinigol. Felly, rydym yn gwybod llawer am broses a chyfrifon gweithgarwch, ond ychydig am ofal clinigol a chanlyniadau. Mae ein hymdrechion safoni yn canolbwyntio mwy a mwy ar ansawdd y data sy'n cael ei gipio mewn systemau gweithredol, sy'n gwella ansawdd y data ar gyfer gofal uniongyrchol, ac at ddibenion y tu hwnt i ofal uniongyrchol. Mae gennym ni bellach safonau gwybodaeth glinigol, megis SNOMED CT, sy'n elfen allweddol o gofnodion electronig cleifion. Bydd safonau data o'r fath yn hwyluso'r gwaith o fonitro canlyniadau cleifion dros amser ac yn ein galluogi i gipio data cywir i'w ddefnyddio mewn cyfuniad â data genomig i ategu meddygaeth fanwl.

Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd am SNOMED CT yn GIG Cymru, ac mae angen rhaglen o ymwybyddiaeth ac addysg i alluogi'r adnodd hwn i gael ei ymgorffori'n ddiogel ac effeithiol mewn datblygiadau technoleg a rheoli gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae angen galluoedd newydd i gipio gwybodaeth o'r holl ddata testunol a data distrwythur arall a gynhyrchir mewn gwasanaethau iechyd a gofal i sicrhau bod y data sydd ar gael yn fwy cyflawn. Mae angen i'r gwaith o ddylunio a chaffael atebion newydd fod yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r dibenion clinigol a busnes y dylent eu cefnogi; mae hyn yn gofyn am ddadansoddiad strwythurol o ofynion, gan gynnwys modelu data, ac ystyried sut y gall data gael ei gipio mewn ffordd safonol sy'n cefnogi gofal unigol a defnydd ehangach. Bydd mwy o ddefnydd o ddulliau safon diwydiant ar gyfer datblygu systemau yn gwella ansawdd y data sydd ar gael i helpu i gael mynediad at wybodaeth, gwneud penderfyniadau, cynllunio, gwella ansawdd a pherfformiad a mabwysiadu agwedd gydgysylltiedig tuag at ofal.

Yn ogystal, mae mabwysiadu mesurau newydd ar gyfer canlyniadau a phrofiadau cleifion yn fwy eang yn gallu galluogi darpariaeth gwybodaeth werthfawr i helpu i ddeall a mesur ansawdd gofal yn seiliedig ar ganlyniadau unigolion.

Er bod angen amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi’r gwaith o gasglu data cywir yn y lleoliad gofal, mae hi’n glir hefyd nad yw data ‘amherffaith’ yn rhwystr i ddefnydd, cyn belled â bod yna wybodaeth am ei gyfyngiadau, a gall defnyddio mwy o ddata o’r fath fod yn sbardun allweddol i wella ansawdd.

**ATODIAD 1**

## Egwyddorion i gefnogi rhannu a defnyddio data'n effeithiol

- **Mae gan unigolion hawl i wybod sut mae data amdanynt yn cael ei ddefnyddio**

Mae'r cofnod gofal yn cynnwys gwybodaeth am unigolyn, ac mae gan yr unigolyn hwnnw hawl i wybod sut mae data amdano'n cael ei ddefnyddio a pham. Mae gan y GIG a gwasanaethau gofal gyfrifoldeb fel ceidwaid y cofnod gofal i sicrhau ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel a'i fod ar gael i gefnogi darpariaeth gofal a gwasanaethau gofal. Dylai unigolion allu gwrthwynebu i'r data gael ei ddefnyddio o dan rai amgylchiadau ac, os na all eu gwrthwynebiadau gael eu hanrhydeddu, dylai unigolion gael gwybod pam na ellir gwneud hynny.

- **Dylai data gael ei gasglu unwaith a'i ddefnyddio sawl gwaith**

Mae'r gwaith o gasglu data'n cymryd amser ac ymdrech ac, ar ôl ei gasglu, dylid manteisio ar y cyfle i ailddefnyddio'r data hwnnw yn briodol er mwyn cynyddu gwerth y data a darparu arbedion cost ac effeithlonrwydd. Mae ailddefnyddio data'n osgoi datblygu ffynonellau lluosog sy'n gallu creu ansicrwydd ynghylch y ffynhonnell 'gywir' a thanseilio gwerth y wybodaeth a'r deallusrwydd a gynhyrchir.

- **Mae data'n ased a dylid ei ddefnyddio**

Mae data'n rhan bwysig o'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau'n effeithlon ac effeithiol, ac mae angen ei ddeall, ei gofnodi, ei ddiogelu a manteisio arno. Disgwylir mai sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru fydd yn manteisio fwyaf ar ddata at y diben gwreiddiol y cafodd ei gasglu ar ei gyfer ac, os yn briodol, at ddefnyddiau eraill, er budd iechyd a llesiant yng Nghymru. Dylai'r rhai sy'n rhan o'r gwaith o arwain a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal annog diwylliant sy'n defnyddio data i lywio ac ategu penderfyniadau.

- **Dylai data gael ei reoli mewn ffordd effeithiol a thryloyw**

Mae angen i ddata gael ei reoli'n effeithiol i sicrhau bod ei argaeledd a'i gywirdeb yn gyson â diben ei ddefnydd. Mae eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddata, tryloywder ar y ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio a chydymffurfiaeth â'r holl reoleiddio a deddfwriaeth berthnasol yn hollbwysig i ddiogelu data'n ddigonol ac i greu a chynnal ymddiriedaeth gyda'r cyhoedd ar y defnydd ohono. Mae angen i arferion llywodraethu gwybodaeth sicrhau bod risgiau'n cael eu cydbwyso yn erbyn y cyfleoedd a manteision defnyddio data, ac yn cefnogi rhannu ac ailddefnyddio lle bo hynny'n briodol.

- **Dylai data fod yn addas i'r diben**

Dylai data fod yn ddigon da i gyflawni'r diben bwriedig ac unrhyw ddibenion ychwanegol eraill y gall gael ei ddefnyddio ar eu cyfer. Mae agweddau ar ansawdd yn cynnwys ei gywirdeb, dilysrwydd, amseroldeb a chyflawnrwydd. Nid oes rhaid i'r data fod yn berffaith cyn belled â'i fod yn ddigon da i lywio'r diben y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, ac mae ei gyfyngiadau'n cael eu disgrifio ochr yn ochr â'r data.

- **Dylai data cyhoeddus fod ar gael**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ei data ar gael, ac annog cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un fath, i wella tryloywder ac atebolrwydd ac i sbarduno arloesedd. Mewn lleoliad iechyd a gofal, mae angen i'r gwaith o gyhoeddi data agored gael ei gydbwyso yn erbyn cyfyngiadau a gwaharddiadau ar gyfer data penodol megis gwybodaeth bersonol sy'n gallu cyfaddawdu preifatrwydd.